Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 362 (Cymru) – 5 Mawrth 2024**

## Etholiadau mis Mai 2024: gwasanaethau cynogr y tu allan i oriau yn ystod cyfnod yr etholiad

Unwaith eto byddwn yn darparu gwasanaeth cyngor dros y ffôn y tu allan i oriau i ymdrin ag ymholiadau gweinyddu etholiadol brys wrth i'r etholiadau agosáu ac yn syth ar ôl iddynt ddod i ben ym mis Mai 2024, ac roeddem yn credu y byddai'n ddefnyddiol eich atgoffa sut i gysylltu â ni.

**Cysylltu â ni yn ystod oriau swyddfa arferol**
Bydd ein timau lleol yn parhau i fod ar gael rhwng 08:30 a 17:30 trwy gydol cyfnod yr etholiad i'ch cefnogi fel arfer.

Os ydych yn cysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa arferol, defnyddiwch ein Llinell Cyngor a Chanllawiau: 0333 103 1929.

Neu gallwch anfon neges e-bost at: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

**Cysylltu â ni tu allan i oriau swyddfa arferol**
Bydd ein gwasanaeth cyngor brys tu allan i oriau ar gael o ddydd Llun 25 Mawrth, a bydd yn cynnwys ar y penwythnosau a gwyliau banc trwy gydol cyfnod yr etholiad. Bydd ar gael gyda'r hwyr rhwng 17:30 hyd nes 21:00, ac ar wyliau banc rhwng 10:00 hyd nes 16:00.

Yn ogystal, bydd cymorth 24 awr ar gael ar y diwrnod pleidleisio, a dros y penwythnos a gŵyl y banc o ddydd Sadwrn 4 Mai i ddydd Sul 6 Mai.

Gellir cysylltu â ni y tu allan i oriau swyddfa drwy ffonio: 07824 464350. Fel arall, anfonwch e-bost at Catherine Uphill: cauphill@electoralcommission.org.uk.

## Llawlyfr Gorsafoedd Pleidleisio – cadarnhau danfoniad

Mae'r llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio terfynol sy'n barod i'w hargraffu ar gyfer etholiadau mis Mai 2024 bellach wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan, gan gymryd lle'r fersiynau cyfeirio a gyhoeddwyd yn

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2024: gwasanaethau cynogr y tu allan i oriau yn ystod cyfnod yr etholiad**

Gwybodaeth am ein gwasanaeth cyngor y tu allan i oriau yn ystod ac ar ôl cyfnod yr etholiad.

**Llawlyfr Gorsafoedd Pleidleisio – cadarnhau danfoniad**

Dolenni i lawlyfrau gorsafoedd pleidleisio terfynol sy'n barod i'w hargraffu ar gyfer etholiadau mis Mai 2024, a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddyddiadau danfon copïau caled.

**Codi ymwybyddiaeth o ofynion ID pleidleisiwr ar gyfer etholiadau mis Mai 2024**

Dolen i'n cyfres o adnoddau i helpu i godi ymwybyddiaeth pleidleiswyr o ofynion ID, a dolenni i'n cyfres o animeiddiadau ID pleidleisiwr.

**Etholiadau mis Mai 2024: neges atgoffa yn galw am ddata gorsafoedd pleidleisio**

Nodyn i'ch atgoffa ein bod yn gofyn am ddata gorsafoedd pleidleisio ar gyfer ein darganfyddwr gorsaf bleidleisio, a gwybodaeth am sut i gyflwyno'r data.

gynharach ym mis Chwefror, ynghyd â’r canllawiau cyflym ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio.

Disgwyliwn i gopïau caled gael eu danfon i'r rhai sydd wedi'u harchebu yn yr wythnos yn dechrau 11 Mawrth. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os oes angen cymorth arnoch, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

## Codi ymwybyddiaeth o ID pleidleisiwr cyn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

Rydym wedi cyhoeddi adnoddau i'ch helpu i godi ymwybyddiaeth o'r gofyniad ID pleidleisiwr a chefnogi pleidleiswyr i wneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr cyn etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar 2 Mai. Hwn fydd y tro cyntaf y bydd angen ID pleidleisiwr mewn etholiad yng Nghymru.

Mae'r adnoddau hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gofrestru pleidleiswyr sydd wedi'i theilwra i anghenion grwpiau y gwyddom sy'n fwy tebygol o brofi rhwystrau rhag cofrestru ac y gallai fod angen cymorth arnynt i gael mynediad at ID ffotograffig. Mae'r rhain yn fersiynau wedi'u diweddaru o'r adnoddau generig sydd eisoes ar gael ar ein gwefan.

Lawrlwythwch ein hadnoddau ID Pleidleisiwr

**Animeiddiadau**

Mae'r gyfres newydd hon o animeiddiadau yn esbonio'r broses ID pleidleisiwr gam wrth gam, o gofrestru i bleidleisio i'r hyn i'w ddisgwyl yn yr orsaf bleidleisio. Gellir eu gweld a'u rhannu fel cyfres, neu'n unigol, i amlygu camau penodol yn y broses.

Lawrlwythwch y gyfres animeiddiadau ID pleidleisiwr ar gyfer Cymru

Gwyliwch y gyfres animeiddiadau ID pleidleisiwr ar YouTube

## Etholiadau mis Mai 2024: neges atgoffa yn galw am ddata gorsafoedd pleidleisio

Eleni, rydym unwaith eto’n cynnal y teclyn canfod gorsaf bleidleisio, mewn partneriaeth â Democracy Club, er mwyn helpu sicrhau bod gan bleidleiswyr fynediad at wybodaeth gywir a phrydlon o ran sut a ble y gallant bleidleisio.

Bydd angen arnom eich data gorsaf bleidleisio diweddaredig i sicrhau bod pleidleiswyr yn mynd i’r orsaf bleidleisio gywir, os nad ydych wedi’i anfon yn barod. Trwy sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd ar-lein, dylai helpu i leihau’r nifer o alwadau rydych yn eu cael gan bleidleiswyr sy’n chwilio am y wybodaeth hon.

Mae darparu eich data yn rhwydd. Gallwch allforio'r data o'ch EMS, ac yna ei uwchlwytho gan ddefnyddio teclyn hawdd i’w ddefnyddio y Democracy Club. Fel arall, gallwch ei e-bostio o hyd i pollingstations@democracyclub.org.uk.

Ceir cyfarwyddiadau manwl ar gyfer pob cyflenwr, os oes eu hangen.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio infowales@electoralcommission.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a’ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**

I sicrhau bod gennym amser i ychwanegu’r wybodaeth, rydym yn gofyn eich bod yn anfon eich data gorsaf bleidleisio mor fuan â phosib, os nad ydych wedi gwneud felly yn barod.

Os hoffech weld y darganfyddwr gorsafoedd pleidleisio ar eich gwefan eich hun, gallwch fewnosod ein teclyn etholiadau.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2023